**Jeremy Miles AS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA/JMEWL/1612/22

Jayne Bryant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

20 Gorffennaf 2022

**DIWEDDARIAD LLYWODRAETH CYMRU AR EI HYMATEB I ARGYMHELLION YR ADOLYGIAD O WARIANT YSGOLION YNG NGHYMRU**

Annwyl Jayne,

Ysgrifennaf mewn ymateb i argymhelliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn ei adroddiad ar gyllideb ddrafft 2022-23 ac ymrwymiad Llywodraeth Cymru i roi diweddariad ar ei hymateb i adolygiad Sibieta o gyllid ysgolion a sut y mae'n bwrw ymlaen â'r argymhellion.

Ni allai neb fod wedi rhagweld yr amgylchiadau yr ydym wedi bod yn byw ac yn gweithio ynddynt dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae pandemig Covid wedi rhoi pwysau aruthrol ar wasanaethau cyhoeddus, yn ariannol ac yn ymarferol. Mae blaenoriaethau'r Llywodraeth Cymru wedi cael eu haddasu i ymateb i ddifrifoldeb y sefyllfa, ac mae hyn wrth gwrs wedi effeithio ar ein gallu i ddatblygu rhai o'r argymhellion o fewn yr amserlen a oedd gennym mewn golwg. Fodd bynnag, mae llawer o waith wedi'i gwblhau serch hynny, ac rydym yn parhau yn ein hymrwymiad i sicrhau bod ein hysgolion yn cael y lefelau priodol o gyllid.

Mae'r Adolygiad o Wariant Ysgolion wedi bod yn werthfawr o ran darparu dadansoddiad manwl ac argymhellion ynghylch sut y gellir addasu'r system cyllido ysgolion i gefnogi'r amcanion polisi a'r uchelgeisiau yn y ffordd orau er mwyn gwella'r system ysgolion yng Nghymru. Mae'r adolygiad yn tynnu sylw at gymhlethdodau'r system, ond hefyd sut mae'r cymhlethdodau hyn yn adlewyrchu gallu awdurdodau lleol i dargedu cyllid lle mae yna anghenion uwch a lle gall cyllid ychwanegol gael yr effaith orau.

Mae ystod eang o bortffolios y Llywodraeth Cymru yn ymwneud â'r system addysg a'r cyllid sydd ar gael i'n plant a'n pobl ifanc. Nodir isod ddiweddariadau sy'n ymwneud â'r argymhellion

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

a'r gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud. Mae llawer o'r argymhellion yn yr adroddiadau yn berthnasol i fwy nag un maes, ac felly maent wedi'u coladu'n themâu.

**Cyllid**

Er bod yr Adolygiad o Wariant ar lefel y DU yn rhoi rhywfaint o sicrwydd ariannol inni yn y tymor canolig, a rhywfaint o fuddsoddiad ychwanegol, mae'r pwysau o ran chwyddiant ac o ran y system yn gyffredinol yn fwy. Nid yw'r gyllideb sydd ar gael inni, felly, yn ddigonol i ddelio â graddfa'r her y mae teuluoedd, gwasanaethau cyhoeddus a'r economi ehangach yn dal i'w hwynebu o ganlyniad i'r pandemig. Fodd bynnag, rydym wedi ymrwymo i gyflawni ein Rhaglen Lywodraethu uchelgeisiol; ac iechyd, gofal cymdeithasol a llywodraeth leol yw ein blaenoriaethau craidd o hyd.

Roedd rhoi'r setliad gorau posibl i lywodraeth leol, sy'n darparu'r rhan fwyaf o gyllid craidd awdurdodau lleol ar gyfer addysg, yn ganolog i Gyllideb 2022-23. Yng y Nghyllideb Ddrafft 2022-23, roedd cynnydd o £368m (10.2%) yn y Grant Cynnal Refeniw ar gyfer 2022-23 ac, o ystyried newidiadau mewn cyllid ardrethi annomestig hefyd, gwelwyd cynnydd cyffredinol yn y setliad, ar sail tebyg am debyg, o £437m (9.4%) i gefnogi gwasanaethau rheng flaen, gan gynnwys ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol. Erbyn 2024-25 byddwn yn darparu cyllid refeniw ychwanegol o £743m, a fydd yn sail i wasanaethau lleol hanfodol a gwerthfawr, gan helpu o ran yr ymateb parhaus i'r pandemig a blaenoriaethu ysgolion a gofal cymdeithasol.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chyllideb derfynol ar 1 Mawrth sy'n cynnwys mwy na £1.3bn o fuddsoddiad sy'n benodol i'r blynyddoedd cynnar ac addysg. Mae'r buddsoddiad hwn yn ychwanegol at gyllid heb ei neilltuo a ddarperir i awdurdodau lleol ar gyfer gwasanaethau hanfodol, gan gynnwys ysgolion. Mae'r blaenoriaethau cyllid hyn yn cwmpasu datblygiad plant a'u dysgu, er mwyn darparu'r arlwy mwyaf safonol i roi'r dechrau gorau posibl iddynt mewn bywyd. Rydym yn cydnabod mai ar rai o'r dysgwyr hynny sydd fwyaf agored i niwed ac sydd fwyaf difreintiedig, gan gynnwys y rheini o deuluoedd incwm isel, y mae'r pandemig yn parhau i effeithio fwyaf.

Ochr yn ochr â chyllid ar gyfer llywodraeth leol a fydd yn cefnogi ysgolion, yn 2022-23 rydym yn gwneud nifer o fuddsoddiadau penodol. Mae hyn yn cynnwys £40m yn 2022-23 i gefnogi'r gwaith o gyflwyno prydau ysgol am ddim i ddisgyblion cynradd; buddsoddiad pellach yn y Grant Datblygu Disgyblion, gan gynyddu'r gyllideb £20m y flwyddyn o 2022-23; a £7m ychwanegol o 2022-23 i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol.

Rydym hefyd yn darparu £37.5m yn ychwanegol i ysgolion yn 2022-23 i gefnogi parhad y Rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau, gan gefnogi lles a chynnydd dysgwyr wrth inni weithio drwy oblygiadau'r pandemig a datblygu ein Cwricwlwm newydd i Gymru.

Fel rhan o'r Gyllideb Derfynol 2022-23, a gyhoeddwyd ar 1 Mawrth, rydym wedi dyrannu £28.4m yn ychwanegol yn 2022-23 i fynd i'r afael â'r materion sy'n ymwneud â llwgu yn ystod y gwyliau a gweithgareddau am ddim i blant a phobl ifanc yn ystod gwyliau'r ysgol. O'r dyraniad hwn, bydd £21.4m yn ymestyn y ddarpariaeth Prydau Ysgol am Ddim dros wyliau'r Pasg, y Sulgwyn a'r Haf, gan adlewyrchu ein cytundeb cydweithio sy'n parhau gyda Phlaid Cymru. Mae swm pellach o £7m yn cael ei ddarparu i gyflwyno'r rhaglen Haf o Hwyl sydd hefyd yn darparu bwyd a gweithgareddau am ddim yn ystod cyfnod yr haf i bob plentyn a pherson ifanc hyd at 25 oed. Yn 2021 cyrhaeddodd y cynllun dros 67,500 o blant, gan eu cefnogi yn gymdeithasol, yn emosiynol ac yn gorfforol, a'u helpu i ailymgysylltu â'u cyfoedion. Er mwyn cefnogi'r teuluoedd mwyaf difreintiedig ymhellach, rydym yn darparu £13.1m ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion. Ar gyfer ein Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad, mae hyn yn cynnwys swm atodol o £100 i bob blwyddyn ysgol, a fydd yn mynd i'r afael â chostau eraill y

diwrnod ysgol, gan gynnwys costau cit addysg gorfforol a chostau ychwanegol yn ymwneud â'r wisg ysgol.

Oherwydd y setliad gan Lywodraeth y DU sy'n ymestyn dros sawl blwyddyn, setliad sydd i'w groesawu, rydym wedi gallu darparu amcan o'r dyraniadau cyllidebol hyd at 2024-25, gan roi llawer mwy o sicrwydd i'n partneriaid mewn awdurdodau lleol sy'n darparu'r gwasanaethau hanfodol hynny.

**<u>Dosrannu cyllid</u>**

Mae'r cyllid refeniw craidd a ddarparwn i awdurdodau lleol bob blwyddyn yn cael ei ddosrannu ar sail angen cymharol. Caiff y fformiwla ei hadolygu a'i gwella'n barhaus dan oruchwyliaeth yr Is-grŵp Dosbarthu. Mae'r Is-grŵp Dosbarthu yn llunio adroddiad blynyddol i'w ystyried gan Is-grŵp Cyllid Cyngor Partneriaeth Cymru. Mae'n bwysig cofio nad yw'r cyllid a ddarparwn i lywodraeth leol drwy'r setliad wedi'i neilltuo, sy'n golygu mai mater i awdurdodau unigol yw sut y maent yn gwario'r arian hwn yn ôl eu blaenoriaethau lleol nhw, a bod y fformiwla cyllido yn anelu at fodelu angen cymharol awdurdodau i wario ar bob gwasanaeth. Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'n cydweithwyr mewn llywodraeth leol ar ein blaenoriaeth gyffredin i sicrhau bod cyllid yn cyrraedd ein gwasanaethau rheng flaen.

Yng nghyfarfod yr Is-grŵp Cyllid ym mis Chwefror 2022, gofynnodd yr aelodau am i'r Is-grŵp Dosbarthu gynhyrchu papur yn rhoi eu barn am gywirdeb ac amseroldeb y data yn fformiwla'r setliad presennol, cyn ystyried yr opsiynau ar gyfer adolygiad ehangach o'r fformiwla yn y dyfodol. Cyflwynir y papur hwn yn y cyfarfod nesaf ar 14 Gorffennaf 2022.

**<u>Tryloywder o fewn y system</u>**

Cytunwn â'r angen am dryloywder yn y system cyllido ysgolion ac am ddata cyson y gellir eu cymharu. Yn wir, dylid sicrhau hyn ar bob lefel, gan gynnwys ysgolion, llywodraeth leol a phartneriaethau awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol.

Rydym yn casglu data manwl ar y gyllideb ac alldro drwy Adran 52 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998. Cyhoeddir yr wybodaeth hon ar StatsCymru ac mae ar gael yn hawdd. Mae swyddogion wrthi'n gweithio gyda rhanddeiliaid i ystyried diwygiadau i Reoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010. Bydd y gwaith hwn yn rhoi'r hyblygrwydd i ganiatáu i awdurdodau lleol gefnogi ysgolion yn well i reoli eu cyllidebau, ac yn darparu mwy o dryloywder, cysondeb a'r gallu i gymharu o fewn y system.

**<u>Consortia rhanbarthol</u>**

Rydym hefyd yn cydnabod cymhlethdod y system gyllido ar gyfer partneriaethau awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol. Dyna pam rydym wedi cydgrynhoi'r nifer fawr o grantiau gwahanol a ddarparwyd yn flaenorol i gonsortia rhanbarthol i greu dau grant: Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol (sy'n cynnwys y Grant Gwella Addysg) a'r Grant Datblygu Disgyblion.

Mae'r grant rhanbarthol yn ariannu nifer fawr o fentrau a blaenoriaethau, gan gydnabod y rôl bwysig ac eang y mae rhanbarthau'n ei chwarae yn y system ysgolion – gan gynnwys gwasanaethau gwella ysgolion, dysgu proffesiynol a datblygu'r cwricwlwm. Fodd bynnag, mae'r rhain wedi'u grwpio i bum categori, yn unol ag amcanion galluogi Cenhadaeth Ein Cenedl, fel bod gan ranbarthau rywfaint o hyblygrwydd o ran sut y maent yn defnyddio'r cyllid, yn seiliedig ar anghenion ysgolion yn eu hardal.

Aethom ati i gydgrynhoi ymhellach ar y blaenoriaethau yn y grant rhanbarthol lle roedd modd, yn ystod y ddau gyfnod grant diwethaf. Gwnaethom hyn gan ymgynghori â phartneriaethau

awdurdodau lleol a chonsortia i sicrhau cydbwysedd priodol rhwng cydgrynhoi a'r angen i sicrhau bod gwariant y Llywodraeth Cymru yn ddigon tryloyw ar draws gwahanol feysydd polisi. Rydym hefyd yn bwriadu cynnal adolygiad o'r grant rhanbarthol yn 2022-23 er mwyn sicrhau bod y meysydd a gydgrynhoir yn dal i fod yn briodol yn yr amgylchedd presennol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu canllawiau anstatudol ar wella ysgolion sy'n nodi fframwaith gwerthuso, gwella ac atebolrwydd i ysgolion, awdurdodau lleol, rhanbarthau ac Estyn, sy'n gyson â'r cwricwlwm newydd.

Diben cyffredinol y canllawiau yw helpu ysgolion i wella er mwyn rhoi'r profiadau dysgu a'r deilliannau gorau posibl i ddysgwyr, a thrwy hynny, godi safonau a lleihau'r bwlch rhwng dysgwyr dan anfantais a'u cyfoedion. Bwriedir i'r fframwaith newydd sicrhau y caiff perfformiad ysgolion ei werthuso gan ddefnyddio amrywiaeth eang o dystiolaeth a gwybodaeth, sy'n cwmpasu holl weithgarwch yr ysgol – gan gynnwys cynnydd a lles dysgwyr – wrth bennu blaenoriaethau ysgol ar gyfer gwella.

O fewn system ysgolion sy'n hunanwella, mae'n bwysig bod y cyrff gwahanol – yn bennaf ysgolion a chyrff llywodraethu, awdurdodau lleol, a chonsortia rhanbarthol – yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau eu hunain, rolau a chyfrifoldebau cyrff eraill, a'r gydberthynas rhyngddynt. Felly, mae'r canllawiau yn nodi disgwyliadau y Llywodraeth Cymru ynglŷn â rôl a chyfrifoldebau'r gwahanol gyrff, mewn perthynas â gwerthuso, gwella ac atebolrwydd, er mwyn helpu'r system hunanwella i weithredu'n effeithlon ac yn effeithiol. Maent yn pwysleisio y dylid ystyried bod atebolrwydd yn elfen wahanol i weithgareddau gwerthuso a gwella, er ei bod yn gysylltiedig â nhw.

**<u>Polisi sy’n seiliedig ar dystiolaeth</u>**

Rydym hefyd yn cytuno â'r casgliad na ddylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu’r arfer o ddefnyddio isafswm cost penodol wrth wneud penderfyniadau ariannu neu wario, gan nad yw'n bosibl pennu un lefel wariant a darpariaeth sy’n gywir ar gyfer pob math o adnodd mewn lleoliadau amrywiol a sefyllfaoedd ysgol amrywiol. Credwn y byddai symud i system gyllido sy'n rhoi rhagor o fanylion am gost debygol newidiadau penodol i'r cynnig presennol, lle y bo'n briodol, yn fuddiol, ac yn arbennig o berthnasol mewn perthynas â newidiadau polisi. Ar hyn o bryd, fodd bynnag, nid ydym o’r farn y byddai cyhoeddi asesiadau o dwf tebygol yng nghostau ysgolion dros sawl blwyddyn yn ychwanegu llawer o werth, gan na fyddai'r data sydd ar gael yn caniatáu i’r wybodaeth gael ei darparu mewn ffordd ystyrlon. Oherwydd pwysau costau/gwariant yn ystod y pandemig a’r gwaith adfer sy’n parhau, ni fyddai’r data yn darparu amcanestyniadau cywir. Byddwn yn cadw golwg ar hyn.

Mae'r adolygiad o wariant ysgolion yng Nghymru yn darparu tystiolaeth werthfawr i lunwyr polisi wrth lywio penderfyniadau ynghylch cyllid a pholisi yn y dyfodol.

Defnyddir y dystiolaeth ddiweddaraf wrth ystyried newidiadau polisi, ond mae mwy o waith y gellir ei wneud i sicrhau bod y cyllid sydd ei angen i sicrhau newidiadau polisi yn cyrraedd y meysydd buddsoddi penodol hynny, heb iddo gael ei ailddosbarthu’n anfwriadol, gan sicrhau lefelau uwch o fuddsoddiad lle nodwyd yr angen.

Dylai fod gan Lywodraeth Cymru fynediad at sylfaen dystiolaeth barhaus o effeithiau cyllido ysgolion. Yn Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth Ein Cenedl (2017), mae ymchwil yn elfen hanfodol o bob amcan galluogi. Nodir yn glir y caiff y cynllun ei ategu gan bolisïau a gaiff eu datblygu mewn partneriaeth, ar sail tystiolaeth gadarn, ac y caiff ei werthuso’n effeithiol ar bob cam.

Fel rhan o'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Ymchwil ac Ymholiad Addysgol, rydym wedi sefydlu Rhwydwaith Ymchwil Cydweithredol ar Arweinyddiaeth a Dysgu Proffesiynol, gan

ddwyn ynghyd arbenigedd yn y maes hwn o bob un o'n hwyth sefydliad addysg uwch. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r rhwydwaith hwn i ddatblygu rhaglen ymchwil ar effaith cyllido ysgolion, yn ogystal ag ymchwilio i feysydd cysylltiedig eraill megis dangosyddion anfantais economaidd-gymdeithasol y gellir eu defnyddio at ddibenion ariannu.

Mae ymchwil hefyd yn rhan bwysig o'n gwaith dadansoddi polisi i sicrhau bod polisïau newydd yn cael eu gweithredu fel y'u bwriadwyd. Gan weithio gyda'n Hadran Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, bydd swyddogion yn monitro'r broses o gyflwyno'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd a'i heffaith, a gwneir dadansoddiadau economaidd fel rhan o'r gwaith ymchwil hwnnw. Tynnwyd sylw at y maes hwn yn yr adroddiad ynghyd â chludiant i'r ysgol. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru adolygiad cychwynnol, gan weithio gyda'r awdurdodau lleol, i ddeall modelau gwariant cyfredol ac effaith unrhyw newidiadau posibl i'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr. Yn ddiweddar, mae'r Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd wedi cyhoeddi adroddiad ar yr adolygiad interim. Canfu'r adolygiad cychwynnol nid yn unig fod angen rhoi sylw i faterion pellach o ran y Mesur presennol, ond hefyd fod yna faterion ehangach i'w hystyried sy'n ymestyn y tu hwnt i gwmpas y ddeddfwriaeth. Rydym yn awyddus, felly, i ddatblygu rhaglen waith ehangach sy'n cynnwys ystyried diwygio'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr yn llwyr, ynghyd â gwaith i wella darpariaeth gweithredwyr. Cynhelir yr adolygiad manwl o'r mesur eleni.

**Cyllid amddifadedd**

Mae tystiolaeth empirig o adolygiad Sibieta yn cefnogi'r farn bod gwariant uwch yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgwyr difreintiedig. Mae mynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad yn ganolog i genhadaeth ein cenedl ym myd addysg. Dyna'r unig ffordd y gallwn lwyddo yn ein nod i sicrhau safonau uchel i bawb a bod pob dysgwr yn cyflawni ei uchelgais.

Rwyf wedi'i gwneud yn glir mai mynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad yw un o'n prif flaenoriaethau, yn unol ag ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu i leihau anghydraddoldebau yng Nghymru. Rwyf wedi nodi fy mwriadau yn y maes hwn yn y Senedd ar 22 Mawrth, ac mae swyddogion wrthi'n paratoi cynllun i fwrw ymlaen â'r camau gweithredu, a gaiff ei gyhoeddi cyn bo hir.

Rydym yn cydnabod mai ar rai o'r dysgwyr hynny sydd fwyaf agored i niwed ac sydd fwyaf difreintiedig, gan gynnwys y rheini o deuluoedd incwm isel, y mae'r pandemig yn parhau i effeithio fwyaf. Mae gwrthsefyll effeithiau anfantais ac amddifadedd ar blant a phobl ifanc yn ganolog i'n Grant Datblygu Disgyblion.

Flwyddyn ar ôl blwyddyn, rydym wedi ymestyn y Grant Datblygu Disgyblion i adlewyrchu'r cynnydd mewn dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ac mae'r cyllid ar gyfer 2022-23 dros £126m.

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda chynrychiolwyr rhanbarthol y Grant Datblygu Disgyblion i nodi'r meysydd hynny lle gall cyllid gael yr effaith fwyaf, yn enwedig yng nghyd-destun argymhellion adroddiad yr Adolygiad o Wariant Ysgolion yng Nghymru; yn benodol blaenoriaethu cyllid ychwanegol ar gyfer ysgolion mwy difreintiedig, a gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau fformiwlâu mwy cyson a thryloyw ar gyfer cyllido ysgolion.

Yn unol â dyheadau'r Rhaglen Lywodraethu, mae swyddogion wrthi'n cynnal adolygiad o bolisïau yn y maes hwn. Mae'r adolygiad yn canolbwyntio ar chwaraewyr allweddol yn nealltwriaeth y system o anghydraddoldeb addysgol a'i achosion; yr hyn sydd, yn eu barn nhw, wedi bod yn gweithio'n dda i fynd i'r afael â'r materion hyn; a pha rwystrau sy'n parhau a sut y gellid eu goresgyn mewn strategaeth bolisi newydd. Rydym yn ystyried sut y gellid

defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion yn fwy effeithiol fel rhan o'r gwaith hwn i ddatblygu Strategaeth ar gyfer Tegwch  Addysgol.

Rydym hefyd wedi cynyddu'r cyllid ar gyfer grantiau sy’n ymateb i’r galw. Mae ein Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad yn mynd yn uniongyrchol i deuluoedd ar gyfer prynu gwisg ysgol, cit chwaraeon ac adnoddau gweithgareddau allgyrsiol eraill. Yn ystod 2021-22, estynnwyd y Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad i bob disgybl cymwys ym mhob blwyddyn ysgol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ac, ar gyfer 2022-23 yn unig, rydym yn darparu swm atodol o £100 i’r grant ar gyfer pob dysgwr cymwys. Darparwyd cyfanswm o £22.8m yn 2022-23, felly.

**<u>Chweched Dosbarth</u>**

Argymhellodd adroddiad Sibieta hefyd y dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu cyllid ychwanegol ar gyfer ysgolion sydd â chweched dosbarth. Byddai angen ystyried unrhyw benderfyniadau cyllido ar gyfer dosbarthiadau chwech fel rhan o'r setliad ôl-16 ehangach.

Roedd cyllideb 2021-22 yn cydnabod y flaenoriaeth ar gyfer darpariaeth 16-19, yn nosbarthiadau chwech ysgolion ac mewn colegau, gan nodi bod demograffeg y garfan oedran hon yn cynyddu ac y dylai'r cyllid gynyddu yn unol â hynny.  Ar gyfer 2021-22, cafodd dosbarthiadau chwech ysgolion gynnydd o dros £3miliwn neu 3.22%. Dilynwyd hyn yn 2022-23 gan gynnydd pellach o £3.7m, neu 3.83%. Mae hyn yn cynnwys cyllid a ddyrannwyd yn benodol i amddifadedd addysgol o tua £3.3m bob blwyddyn.

Ochr yn ochr â'r cynnydd mewn cyllid prif-ffrwd, dyrannwyd £3.9m yn ychwanegol o gyllid Adfer a Chynnydd Dysgwyr i ddosbarthiadau chwech i gydnabod y gefnogaeth barhaus sydd ei hangen ar ddysgwyr yn dilyn y pandemig, a dyrannwyd £12m arall i ysgolion a cholegau i sicrhau bod dysgwyr ym mlynyddoedd 11, 12 ac 13 yn cael eu cefnogi wrth drosglwyddo i'w cyrchfan nesaf, boed yn goleg, ysgol, prifysgol, cyflogaeth neu rywle arall.

Ers ymgymryd â swydd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, rwyf wedi'i gwneud yn glir bod yn rhaid inni ystyried pob polisi addysgol drwy lens p’un a ydynt yn helpu i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol. Bydd angen gweithredu ar draws y system er mwyn llwyddo, gan gefnogi plant a phobl ifanc drwy bob cyfnod o'u haddysg: cyn ysgol, ysgol ac ôl-16. Mae'r adolygiad wedi bod yn gyfrwng i fwrw ymlaen â'r gwaith o sicrhau bod yr arian sy'n mynd i mewn i'n hysgolion yn cael ei ddefnyddio i'w lawn botensial. Gan weithio'n agos gyda'n partneriaid a'n rhanddeiliaid, byddwn yn dal ati i sicrhau bod y pwyslais hwn yn parhau wrth inni fwrw ymlaen â'r gwaith a amlinellwyd uchod.

Yn gywir,



**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language